Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Gweithdrefn Ofgem ar gyfer Penderfynu ar Anghydfodau

## Cyflwyniad

1 Mae amgylchiadau lle gellir cyfeirio anghydfod rhwng cyflenwr trydan a dosbarthwr neu gyflenwr nwy a chludwr a defnyddiwr er mwyn i'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan benderfynu arnynt. Gall y rhain godi o dan statud (Deddf Nwy 1986 a Deddf trydan 1989 yn benodol) neu o dan ddarpariaethau trwyddedau.

2 Mae'r memorandwm hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau y bydd Ofgem yn eu dilyn fel arfer mewn achosion o'r fath.[1] Mae'r gweithdrefnau hyn yn ychwanegol at unrhyw ofynion gweithdrefnol a bennir yn y Deddfau neu'r trwyddedau perthnasol.

## Camau Cychwynnol

3 Os bydd anghydfod yn codi, bydd Ofgem yn disgwyl i'r partïon geisio ei ddatrys ymysg ei gilydd. Gallant hefyd, mewn achosion priodol, geisio cymorth gan energywatch. Os bydd yr ymdrechion hyn yn aflwyddiannus, efallai y cyfeirir yr achos i Ofgem.

## Dechrau'r Broses

4 Os cyfeirir mater i Ofgem a all arwain at benderfyniad, yn gyntaf bydd Ofgem yn ystyried a yw'r mater yn un y bydd Ofgem yn penderfynu arno. Unwaith y bydd Ofgem wedi penderfynu bod hwn yn fater y gall wneud penderfyniad arno, bydd Ofgem yn dechrau ar y gweithdrefnau drwy egluro'r gweithdrefnau y mae'n bwriadu eu dilyn i bob parti. Disgwylir gwneud hyn fel arfer drwy ddarparu copi o'r nodyn hwn, ynghyd ag unrhyw ganllawiau ychwanegol a all fod yn berthnasol i'r math penodol o anghydfod.

5 Ar yr un pryd bydd Ofgem yn sicrhau bod pob parti yn gwybod pwy fydd y swyddog Ofgem a fydd:

- Yn gyfrifol am gynnal y gweithdrefnau (y 'swyddog achos'), a
- Yn gwneud y penderfyniad terfynol

Ni fydd y rhain fyth yr un rhai. Os ar unrhyw gam yn ystod y broses, y bydd y naill swyddog neu'r llall yn newid am unrhyw reswm, bydd Ofgem yn hysbysu pob parti cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

[1] Nid yw'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol pan fydd yr anghydfodau yn ymwneud â thorri amodau trwydded a gall arwain at gamau gorfodi

**The Office of Gas and Electricity Markets**
9 Millbank London SW1P 3GE **Tel** 020 7901 7000 **www.ofgem.gov.uk**

## Yn Ystod y Broses

6 Bwriad Ofgem yw y dylai pob parti gael cyfle llawn i gyflwyno eu hachos ac y dylid amlygu'r achos a gyflwynir gan bob parti yn ysgrifenedig i bob parti arall, yn amodol ar ddulliau diogelu priodol o ran gwybodaeth sy'n gyfrinachol yn fasnachol.

7 Os bydd unrhyw barti yn dymuno darparu gwybodaeth gyfrinachol, dylai roi gwybod i'r swyddog achos cyn gwneud hynny ac egluro pam ei fod yn gyfrinachol. Efallai y bydd y swyddog achos yn gofyn am grynodeb nad yw'n gyfrinachol i gael ei ddarparu i'r parti arall. Ar ôl penderfynu, bydd Ofgem yn ystyried y pwyslais sy'n briodol i'w roi ar wybodaeth lle na fydd unrhyw barti arall wedi cael cyfle i wneud sylwadau.

8 Bydd Ofgem yn gwahodd pob parti yn ei dro i roi cyflwyniad ysgrifenedig sy'n nodi'r ffeithiau a'r rhesymau perthnasol sy'n cefnogi safle'r parti hwnnw. Efallai y bydd Ofgem yn darparu canllaw ar y wybodaeth y bydd angen i barti ei ddarparu er mwyn gallu penderfynu ar y mater. Mewn anghydfodau yn ymwneud â chysylltiad dylai pob parti gwblhau'r ffurflen yn Atodiad 1 a dylai'r Cludwr Nwy / Dosbarthwr Trydan ddarparu'r wybodaeth dechnegol yn Atodiad 2. Mae'n bwysig fod y partïon ond yn gwneud sylwadau ar yr anghydfod ei hun. Bydd Ofgem hefyd yn nodi unrhyw wybodaeth y mae wedi'i chael eisoes, er enghraifft, gan energywatch, y byddai'n disgwyl ei hystyried wrth ddod i benderfyniad. Ar ddechrau'r broses, bydd y swyddog achos yn pennu'r dyddiad y dylai Ofgem dderbyn y cyflwyniadau ysgrifenedig. Bydd y cyfnod a ganiateir ar gyfer paratoi cyflwyniadau yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys cymhlethdod y mater ac i ba raddau y mae dogfennaeth yn bodoli'n barod. Fel arfer ni fyddai Ofgem yn disgwyl i'r cyfnod hwn fod yn hwy na phedair wythnos.

9 Fel arfer bydd Ofgem yn disgwyl copïo ei ohebiaeth i un parti i'r partïon eraill ac i bob parti gopïo unrhyw lythyr mae'n ei ysgrifennu at Ofgem i'r partïon eraill yn yr anghydfod. Gall Ofgem ei hun godi cwestiynau i'r partïon ar faterion sy'n codi o'r ymatebion a gafwyd.

10 Yng ngoleuni cyflwyniadau a sylwadau, bydd y swyddog achos yn llunio datganiad o brif ffeithiau'r achos a dadl pob parti. Caiff y partïon gyfle i wneud sylwadau ar y crynodeb o'r prif ffeithiau a chrynodeb Ofgem o'u tystiolaeth eu hunain. Nid y bwriad yw rhoi cyfle i ailddechrau unrhyw anghydfod o ran ffeithiau na chodi dadleuon newydd.

## Gwrandawiadau Llafar

11 Er mai bwriad Ofgem yw y dylai'r broses o gyfnewid gwybodaeth cyn y penderfyniadau fod yn ysgrifenedig yn bennaf, gall unrhyw barti i fater sy'n destun penderfyniad, ar gais, gyflwyno'i achos yn bersonol i'r gwneuthurwr penderfyniadau. Fel arfer disgwylir y cynhelir unrhyw wrandawiad o'r fath ar ôl cwblhau'r broses ysgrifenedig yn unig. Fel arfer bydd y ddau barti yn bresennol mewn cyfarfodydd o'r fath ond, mewn achosion priodol, efallai y caiff ei gyfarwyddo mai dim ond un parti all fod yn bresennol, er enghraifft at ddiben rhoi gwybodaeth gyfrinachol gerbron Ofgem. Pan fydd y ddau barti yn bresennol, ni ragwelir y dylai'r gwrandawiad fod yn ffurfiol ac ni fydd yn arferol croes archwilio, er y bydd gan bob parti yr hawl i wneud sylwadau cryno ar gynrychioliadau'r llall. Pan mai dim ond un parti sy'n bresennol, bydd Ofgem yn datgelu unrhyw wybodaeth newydd a gaiff yn y gwrandawiad ond nad yw mewn gwirionedd yn gyfrinachol i'r parti arall i wneud sylwadau arno.

12 Y swyddog achos fydd yn gyfrifol am bennu terfynau amser ar bob cam o'r broses. Mewn anghydfodau yn ymwneud â chysylltiad, bydd y swyddog achos yn nodi'r amserlen arfaethedig yn ei lythyr cyntaf i'r partïon. Gall, mewn amgylchiadau eithriadol, ymestyn y terfynau amser y mae wedi'u pennu. Mae ganddo ddisgresiwn llwyr o ran derbynioldeb cyflwyniadau a dderbynnir yn hwyr.



**The Office of Gas and Electricity Markets**
9 Millbank London SW1P 3GE **Tel** 020 7901 7000 **Fax** 020 7901 7066 **www.ofgem.gov.uk**

Felly mae'n bwysig fod pob parti yn darparu gwybodaeth mewn ffordd amserol a chywir i gefnogi eu hachos.

12A Mewn achosion lle nad oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol a bod y mater yn anghydfod cyswllt domestig, rhagwelir na fydd y weithdrefn yn cymryd mwy na deufis o'r adeg y caiff Ofgem y gŵyn ac yn penderfynu bod ganddo awdurdodaeth i ddelio â hi. Mewn materion mwy cymhleth bydd y swyddog achos yn adolygu'r amserlen gychwynnol ac yn rhoi gwybod i'r partïon am unrhyw ddiwygiadau sydd angen eu gwneud iddi.

## Y Penderfyniad

13. Bydd y gwneuthurwr penderfyniadau yn gwneud ei benderfyniad yn seiliedig ar y datganiad a gaiff ei baratoi gan y swyddog achos, cyflwyniadau ysgrifenedig pob parti ac unrhyw wrandawiadau sydd wedi'u cynnal. Caiff y penderfyniad hwn a'r rhesymau drosto eu cofnodi'n ysgrifenedig a bydd y swyddog achos yn rhoi copi i bob parti.

14. Yn ystod y broses efallai y bydd y gwneuthurwr penderfyniadau yn cael cyngor gan staff Ofgem, gan gynnwys canllawiau gan bwyllgor rheoli Ofgem. Fel arfer ni chaiff y ffaith ei fod wedi gwneud hynny, a'r cyngor a roddir ei wneud yn gyhoeddus, ond os oes unrhyw bwyntiau newydd perthnasol yn cael eu codi, caiff y partïon eu gwahodd i wneud sylwadau arnynt.

## Cofrestr Gyhoeddus

15. Mae'n ofynnol i Ofgem osod copi o fathau penodol o benderfyniadau a'i arferion arferol i wneud pob penderfyniad arall ar gael i'r cyhoedd ar gais, ar y gofrestr gyhoeddus a gynhelir ganddo o dan y Ddeddf berthnasol. Fel arfer caiff enw a chyfeiriad y cwsmer ei hepgor o fersiwn y penderfyniad a gyhoeddir. Os bydd unrhyw barti i'r penderfyniad yn dymuno eithrio unrhyw fater o'r cyhoeddiad, dylai roi gwybod hynny i'r swyddog achos o fewn pedwar diwrnod ar ddeg o gyflwyno'r penderfyniad. Ar ôl hynny gall gael ei osod ar y gofrestr neu fel arall ei wneud ar gael yn gyhoeddus ar y ffurf y cafodd ei gyflwyno i'r partïon.

## Anghydfodau Eraill

16. Efallai y gofynnir i Ofgem hefyd benderfynu ar fathau eraill o anghydfodau, er enghraifft, rhwng dau drwyddedai. Yn gyffredinol byddai Ofgem yn disgwyl dilyn y gweithdrefnau a amlinellir uchod, cyn belled â'u bod yn berthnasol, wrth benderfynu ar anghydfodau o'r fath a rhoi gwybod i'r partïon ar adeg y gwneir y cais am benderfyniad am unrhyw newidiadau i'r weithdrefn honno.


**The Office of Gas and Electricity Markets**
9 Millbank London SW1P 3GE **Tel** 020 7901 7000 **Fax** 020 7901 7066 **www.ofgem.gov.uk**